Atodiad 1

Gweithdrefn Wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

1. Penderfynu ynghylch Lefel y Datgeliad

Bydd y rheolwr recriwtio'n penderfynu a oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd a'r lefel briodol.

Ar gyfer swyddi **lle mae rhywun yn gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed (yn rhan o weithgaredd a reoleiddir)**, gofynnir am Dystysgrif Fanylach, boed gyda gwiriad y Rhestr Waharddedig neu hebddo. Mae hyn yn cynnwys lefel ychwanegol o wirio gyda chofnodion yr heddlu lleol yn ogystal â gwiriadau gyda Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a rhestrau adrannau'r llywodraeth a gedwir gan yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Iechyd, fel bo'n briodol. Bydd y mwyafrif o swyddi y bydd angen tystysgrif DBS ar eu cyfer yn y Brifysgol angen Tystysgrif Fanylach.

Os bydd y gweithiwr yn cynnal gweithgareddau rheoledig, yna bydd angen cynnal gwiriad y Rhestr Waharddedig.

Mae'r holl swyddi eraill sydd o dan Orchymyn Eithriadau 1975 i Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn amodol ar dystysgrif DBS Safonol. Mae honno'n cynnwys manylion yr holl euogfarnau sydd ar gofnod (gan gynnwys euogfarnau sydd wedi darfod), ynghyd â manylion unrhyw rybuddiadau, ceryddau neu rybuddion.

Yn ôl y diwygiadau i'r Gorchymyn Eithriadau 1975 (2013) mae rhai euogfarnau a rhybuddiadau sydd wedi darfod yn 'warchodedig' a does dim rhaid eu datgelu i gyflogwyr, ac ni ellir eu hystyried. Mae canllawiau a meini prawf ynglŷn â ffiltro'r rhybuddiadau a'r euogfarnau hynny i'w cael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cynnig pedwar math o wiriad ar gofnod troseddol:

	Sylfaenol Ar gyfer swyddi sydd angen gwiriad cyffredinol o uniondeb	Safonol Ar gyfer swyddi o ymddiriedaeth	Manylach Ar gyfer swyddi lle mae cyswllt agos â phlant neu oedolion sy’n agored i niwed	Manylach + rhestrau gwaharddedig Ar gyfer swyddi sy'n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir fel y'i diffinnir mewn deddfwriaeth
Pa wybodaeth a chwiliwyd				
Euogfarnau sydd heb ddarfod	Oes	Oes	Oes	Oes
Euogfarnau sydd wedi darfod	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rhybuddiadau, rhybuddion, ceryddau	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Gwybodaeth arall gan yr heddlu sy'n berthnasol i'r swydd	Nac oes	Nac oes	Oes	Oes
Rhestr waharddedig plant neu oedolion	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes

2. Y Broses

Os yw'r adran o'r farn bod swydd yn cwrdd â diffiniad o weithgaredd rheoledig a bod angen gwiriad gan y DBS, rhaid iddynt sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol bod angen datgeliad DBS fel rhan o'r broses ymgeisio a threfnu gwiriad DBS ar yr adeg briodol.

Pan fydd yr adran yn gwneud cais i benodi i swydd wag drwy'r systemau recriwtio, dylai ddewis yr opsiwn priodol er mwyn nodi bod angen datgeliad DBS ar gyfer y swydd. Bydd yr hysbyseb yn cynnwys datganiad i'r perwyl hynny a rhaid i'r adran sicrhau bod y manylion pellach yn adlewyrchu hynny a bod dolen at y polisi hwn. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan yr adran Adnoddau Dynol a all gysylltu â'r adran am fanylion pellach lle bo angen er mwyn sicrhau bod gwiriad yn briodol.

Ar ôl dewis penodai a bod cynnig amodol o gontract, bydd yr Adnoddau Dynol yn atgoffa'r ymgeisydd bod y penodiad yn amodol ar gliriad gan y DBS a bydd y contract yn cael ei roddi gyda chymal i'r perwyl hwnnw. Anfonir e-bost at yr ymgeisydd yn eu hysbysu y bydd eu manylion yn cael eu huwchlwytho i gronfa ddata darparwr y gwasanaeth ymbarél (gan roi amser iddynt wrthwynebu cyn gwneud hynny) er mwyn dechrau proses wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gall aelodau'r gymuned drawsrywiol gysylltu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am wiriad sensitif nad yw'n datgelu hanes eu hunaniaeth rhywedd drwy ffonio 0300 131 2784 neu anfon e-bost at sensitive@dbs.gov.uk. Mae gan y rhif ffôn beiriant ateb y tu allan i oriau gwaith lle gellir gadael manylion a bydd aelod o'r tîm yn ffonio'n ôl.

Nid yw'r DBS yn rhoddi tystysgrifau datgeliad i gyflogwyr mwyach. Felly, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno eu tystysgrifau i'r Adnoddau Dynol cyn iddynt ddechrau gweithio neu yn achos staff cyfredol, cyn iddynt ddechrau unrhyw broject neu swydd newydd sy'n cynnwys gweithgareddau a reoleiddir. Bydd cronfa ddata'r darparwr gwasanaeth ymbarél yn nodi (heb ddarparu manylion) unrhyw wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol weld y ddogfen wreiddiol.

Fel rheol, ni fydd unigolion sy'n cael eu penodi i swyddi sy'n gofyn am gliriad boddhaol gan y DBS yn cael cychwyn yn y swydd nes bydd eu Datgeliad wedi'i ddychwelyd a'i fod yn cael ei ystyried yn un boddhaol. Gan ddibynnu ar ofynion penodol y swydd a natur yr ymwneud â phlant a/neu grwpiau sy'n agored i niwed, efallai y bydd yn bosibl i'r unigolyn ddechrau gweithio cyn derbyn y Datgeliad ar yr amod eu bod yn cael eu goruchwylio'n glos. Mewn achosion o'r fath, dylai'r rheolwr recriwtio, a hynny gan ymgynghori â'r Adnoddau Dynol, sicrhau bod dulliau diogelu priodol ar waith. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen gohirio dyddiad cychwyn yr unigolyn.

3. Gwiriadau DBS i aelodau cyfredol o'r staff

Er bod y Datgeliadau'n cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer y broses recriwtio a dethol, mi allai newid dyletswyddau olygu bod angen gwirio Datgeliad ar gyfer aelod o'r staff.

4. Staff rhyngwladol

Efallai na fyddai gwiriad DBS ar ymgeiswyr sydd wedi byw dramor yn cynnwys gwybodaeth am euogfarnau o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Os bu'r ymgeisydd yn byw dramor am gyfnodau, gofynnir iddynt gyflwyno tystysgrifau o ymddygiad da. Gall y DBS gynnig arweiniad ynghylch y gwiriadau ar gofnodion troseddol sydd ar gael mewn amrywiol wledydd tramor.

5. **Trosglwyddo**

Ystyr trosglwyddo yn y cyswllt yma yw ailddefnyddio Datgeliad DBS ar gyfer swydd mewn sefydliad arall. Mae'r DBS wedi egluro nad yw o blaid trosglwyddo Datgeliadau. Felly, polisi Prifysgol Bangor yw peidio â derbyn Datgeliadau gan sefydliadau eraill oni bai bod yr unigolyn wedi ymuno â Gwasanaeth Diweddaru'r DBS (gweler isod) hefyd.

Mae hefyd yn bolisi gan Brifysgol Bangor beidio â rhannu Datgeliadau â sefydliadau eraill a dylai'r holl wybodaeth a ddarperir aros yn gyfrinachol a'i datgelu i bersonél awdurdodedig yn unig; mae datgelu heb awdurdod yn drosedd. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau gallai fod yn bosib rhannu gwybodaeth gyda phartner sefydliadau e.e. myfyriwr ar leoliad. Yn yr achosion hynny rhaid ceisio caniatâd penodol gan yr unigolyn i rannu'r datgeliad.

Ym mhob achos arall, bydd Prifysgol Bangor yn fodlon cadarnhau wrth sefydliadau eraill bod Datgeliad wedi ei dderbyn a dim mwy. Yr argymhellir yw pe bai unigolyn yn dymuno cyflwyno eu Datgeliad i sefydliad arall eu bod yn cadw copi personol.

6. **Gwasanaeth Diweddaru**

Er mwyn lleihau'r angen i ofyn am wiriadau niferus gan y DBS, cyflwynodd y DBS wasanaeth - sef y Gwasanaeth Diweddaru. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddiweddaru eu tystysgrif DBS ar-lein ac mae'n caniatáu i gyflogwyr wirio tystysgrif ar-lein. Gwasanaeth tanysgrifio yw hwn sydd â ffi flynyddol fach ac mae'n addas ar gyfer ymgeiswyr a fydd o bosib yn gorfod gwneud sawl gwiriad, a mynd â'r gwiriad wedyn o'r naill swydd i'r llall, yn yr un gweithlu, lle mae angen yr un lefel o wirio, gan osgoi'r angen i orfod gofyn am rannu gwybodaeth am ddatgeliad. Cewch ragor o gyngor ynghylch y gwasanaeth a sut i danysgrifio ar: https://www.gov.uk/dbs-update-service.

O ddefnyddio'r gwasanaeth diweddaru, rhaid i ymgeiswyr anfon copi sydd wedi'i sganio a'i amgryptio o'r dystysgrif wreiddiol gyda chadarnhad e-bost bod yr ymgeisydd yn rhoi caniatâd i Brifysgol Bangor wneud y gwiriad o'i statws.

7. **Ail-wirio**

Mae'n ofynnol i unigolion sy'n destun Datgeliad DBS hysbysu'r AD ynghylch y rhybuddiadau/yr euogfarnau/y rhybuddion a gawsant yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ail-wirio Datgeliadau bob tair blynedd.

8. **Recriwtio Cyn-droseddwyr**

Ni fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn ddigon i wahardd rhywun rhag gweithio gyda ni. Bydd yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chefndir y troseddau. Mae

ein canllawiau ni ar Recriwtio Cyn-droseddwyr ar gael i bob ymgeisydd am Ddatgeliad ar ddechrau'r broses recriwtio ac ar wefan yr Adnoddau Dynol.

9. Y Swyddi sydd Angen Gwiriad o ran Datgeliad y DBS

Mae rhai o swyddi'r Brifysgol angen eu clirio a'u fetio'n foddhaol o ran gwaharddiad cyn cadarnhau unrhyw benodiad. Dyma rai enghreifftiau o'r swyddi:

- Swyddogion Diogelwch
- Staff y Ganolfan Chwaraeon sy'n goruchwylio neu'n hyfforddi plant neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys plant
- Staff y feithrinfa
- Staff Academaidd neu Ymchwil sy'n cynnal ymchwil mewn lleoliadau clinigol neu'n cynnal ymchwil mewn ysgolion neu ysbytai
- Staff academaidd o rai disgyblaethau: Ysgol y Gwyddorau Iechyd, Addysg, Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Gwaith Cymdeithasol
- Staff Allgymorth Addysg sy'n ymweld yn rheolaidd ag ysgolion ac yn ymwneud â gweithgareddau plant.
- Tiwtoriaid Dyslecsia
- Athrawon rhyngwladol yr ysgol haf sy'n gweithio'n benodol gyda rhai o dan 18
- Arweinwyr gweithdai, swyddi sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r gymuned ac allgymorth
- Swyddi lle mae'r corff cyllido'n pennu'r angen am y gwiriad
- Swyddogion Diogelwch Dynodedig y Brifysgol
- Wardeiniaid yn y Neuaddau Preswyl
- Cwnselwyr, therapyddion
- Staff Arlwyo, Glanhau a Chynnal a Chadw gan ddibynnu ar leoliad eu gwaith, amlder, gweithio ar eu pen eu hunain ac ati.

Nid rhestr gynhwysfawr mo hon. Bydd angen gwneud asesiad risg wrth benderfynu a oes angen gwiriad ar swydd ai peidio. Gall yr adran Adnoddau Dynol gynorthwyo gydag asesu'r gofyniad lle bo angen.

Mae angen i unrhyw un sy'n gwneud dyletswyddau a ystyrir yn weithgareddau a reoleiddir wneud cais am Wiriad Manylach a Rhestr Waharddedig (Plant ac /neu oedolion).

Rhai o dan 18 oed mewn addysg uwch

Mae addysgu, hyfforddi a chyfarwyddo neu ofal a goruchwylio mewn perthynas â phobl dan 18 oed mewn addysg uwch yn gofyn am wiriad Rhestr Gwahardd Plant Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) os cynhelir y gweithgareddau hyn yn ddigon aml (naill ai yn amlach na 3 diwrnod o fewn cyfnod o 30 diwrnod, neu unwaith dros nos rhwng 2:00 am a 6:00 am). Pan nad yw'r amlder yn bodloni'r meini prawf hyn, ond mae'r gweithgarwch yn digwydd fwy nag unwaith, bydd angen gwiriad Manwl (heb wiriad rhestr waharddedig) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'n arfer da gwneud asesiad risg wrth benderfynu a oes angen gwiriad y DBS neu wiriad fetio arall ar gyfer swydd ai peidio, yn enwedig os oes rhywfaint o ansicrwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn amlwg, ond weithiau bydd angen gofyn nifer o

gwestiynau am y rôl a'r gwaith dan sylw. Os bydd arnoch angen unrhyw gyngor, cysylltwch â'r Adnoddau Dynol.

Sylwer: nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac efallai bod swyddi eraill sydd heb eu crybwyll uchod, neu efallai y byddant yn codi, yn y Brifysgol y gallai fod angen Datgeliad DBS arnynt ar ôl eu hasesu.

Gweithwyr achlysurol

Efallai y bydd angen i weithwyr achlysurol sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed ar ran y Brifysgol gwblhau gwiriad y DBS.

Myfyrwyr

Dylai myfyrwyr sydd angen tystysgrif DBS ar gyfer eu rhaglen academaidd gysylltu â'u tiwtor personol.

Os yw unigolyn yn fyfyriwr ac yn gyflogai i'r Brifysgol, dylai fod yn amlwg a oes angen datgeliad DBS ar gyfer eu cyflogaeth ai peidio (a'i brosesu gan yr AD) neu'u cwrs astudio (a'i brosesu gan yr Ysgol).

Profiad Gwaith

Nod y Brifysgol yw mabwysiadu'r safonau uchaf posibl a chymryd pob cam rhesymol lle mae diogelwch a lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn y cwestiwn. Felly, mae'n rhaid i bob lleoliad profiad gwaith gydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Brifysgol.

Fel rhan o asesiad risg yr adran, bydd angen ystyried a oes angen unrhyw wiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae llawer o gyflogwyr yn cynnig lleoliadau profiad gwaith i blant oedran ysgol. Nid yw'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir yn cynnwys addysgu, goruchwyliaeth, gofal, cyngor na chanllawiau a ddarperir i blentyn yn ystod cyflogaeth y plentyn hwnnw. At y dibenion hyn, mae "cyflogaeth" yn cynnwys gwaith â thâl a gwaith di-dâl a gyflawnir o dan oruchwyliaeth neu reolaeth person arall, sy'n ymestyn i leoliadau profiad gwaith.

Felly nid yw goruchwylio lleoliadau profiad gwaith yn gyfystyr â gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant, ac nid yw'r rhai sy'n darparu'r oruchwyliaeth honno yn gymwys am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r Rhestr Wahardd rhag Gweithio â Phlant.